**ADRODDIAD I'R CABINET FFURFIOL**
(15.12.15)

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Roberts a'r Cynghorydd Mair Rowlands

**Pwnc:** Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014 / 15

**Swyddog cyswllt:** Morwena Edwards

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014 / 15 (Atodiad 1).

---

**Cyflwyniad**

Ar y 30 Hydref 2015, bu Gyngor Gwynedd dderbyn yn swyddogol Adroddiad Blynyddol ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2014/15 gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC).

Mae'n debyg ei fod yn deg nodi fod yr adroddiad yn bositif iawn ac yn amlygu mannau amlwg y mae'r arolygwyr wedi profi cynnydd. Er hyn mae elfennau lle mae angen gwella ac fe fydd y Cyfarwyddwyr Statudol, ynghyd a'r swyddogion perthnasol, yn ystyried y materion hyn yn fanwl iawn, gan lunio rhaglen waith pwrpasol mewn ymateb.

Trwy ddatblygu'r rhaglen waith fe fyddwn yn ystyried rhaglenni gwaith eraill sydd eisoes wedi eu cytuno yn y maes, ond lle bo angen, yn sicrhau ei fod yn cyfarch elfennau o'r newydd sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad (Atodiad 1).

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Mae'r adroddiad yn nodi gwerthusiad Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol o berfformiad Cyngor Gwynedd wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae barn yr

arolygaeth yn amlygu ac yn cynnig cyfleoedd i wella ein gwasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion Gwynedd.

**Ystyriaethau perthnasol**

Dim i'w adrodd

**Camau nesaf ac amserlen**

Bydd y rhaglen waith drafft, mewn ymateb i'r adroddiad dan sylw, yn cael ei gyflwyno i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ym mis Rhagfyr. Yn dilyn cadarnhau'r rhaglen waith fe fydd y Paneli Cyflawni perthnasol yn goruchwylio'r cynnydd a wneir.

Fe fydd yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried ein cynnydd yn unol a'r meysydd sydd wedi eu hadnabod ar gyfer gwella. Bydd gwerthusiad yr Arolygaeth yn cyfarch hyn yn ffurfiol wrth gyflwyno Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2015 / 16.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

"Fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae'r adroddiad yn un eithriadol o bositif, yn arbennig felly yng nghyd-destun y math o heriau y mae ein gwasanaethau yn eu wynebu ar hyn o bryd. Cafodd y mater sylw mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, pan yr oedd cynrychiolydd o'r Arolygaeth yn bresennol. Diolchodd y Pwyllgor Craffu am yr adroddiad ond roeddent yn awyddus i weld y Cynllun Gweithredu er mwyn gwirio a oedd yn ddigon cadarn i hybu'r gwelliannau angenrheidiol."

**Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb".

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Er fod yr adroddiad yn cyfeirio at yr ymdrechion sydd eisoes wedi eu gwneud i wireddu arbedion effeithlonrwydd, ac at yr angen i ddarganfod arbedion a thoriadau pellach, ni fyddai derbyn yr adroddiad yn ymrwymo'r Cyngor i wariant ychwanegol nac yn rhwystro'r Cyngor rhag gwireddu'r cynlluniau arbedion pellach sydd yn eu lle ar gyfer y gwasanaethau dan sylw. Mae'r Cabinet eisoes yn ymwybodol o'r cynlluniau arbed unigol ar gyfer y gwasanaethau hyn, a'r cyfansymiau disgwyliedig.

Nid oes rheswm ariannol dros wrthwynebu'r penderfyniad a geisir."

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014 / 15

**Dogfennau Cefndirol**

Dim